



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Gylch Meithrin Cei Newydd  
Y Caban  
Cae Arthur  
Cei Newydd  
Ceredigion  
SA45 9TE**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

<b>Barn</b>	<b>Yr hyn mae'r farn yn ei olygu</b>
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/01/2017

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Cei Newydd ar ddechrau'r wythdegau. Ers 2006, mae wedi'i leoli mewn caban pwrpasol yng nghysgod cae pêl-droed Cei Newydd yn awdurdod lleol Ceredigion. Mae'r lleoliad ar agor am bum bore a phedwar prynhawn bob wythnos.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 24 o blant rhwng dwy a phum mlwydd oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 15 o blant wedi'u hariannu i dderbyn addysg y blynyddoedd cynnar. Ychydig iawn o blant yn unig a ddaw o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Mae gan leiafrif y plant anghenion dysgu ychwanegol a daw ychydig o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi pedwar aelod o staff. Penodwyd yr arweinydd i'w swydd bresennol yn 2003.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Ebrill 2015 a chan Estyn ym mis Mawrth 2012.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol y lleoliad</b>	<b>Digonol</b>
<b>Rhagolygon gwella'r lleoliad</b>	<b>Digonol</b>

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- mwyafrif y plant yn gwneud cynnydd priodol o'u manau cychwyn yn ystod eu cyfnod yno ac yn adalw dysgu blaenorol yn llwyddiannus
- mwyafrif y plant yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llythrennedd a chynnydd da yn eu medrau rhifedd
- mwyafrif y plant yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn yr holl brofiadau a gynigir iddynt ac mae ganddynt agwedd dda tuag at ddysgu
- perthynas waith gadarnhaol a chefnogol yn bodoli rhwng yr holl ymarferwyr a'r plant, sy'n eu galluogi i ymgartrefu'n gyflym wrth iddynt gyrraedd y lleoliad ac i deimlo'n ddiogel yno
- trefniadau'r lleoliad ar gyfer cefnogi'r plant sydd angen cefnogaeth ar gyfer datblygu eu llafaredd yn effeithiol ac
- mae'r arweinydd yn gweithio'n agos gyda gweddill y staff i greu ethos croesawus

Fodd bynnag:

- mae lleiafrif y plant yn aflonydd ac yn ymddwyn yn or-frwdfrydig yn ystod tasgau
- ychydig o blant yn unig sy'n dyfalbarhau'n ddiwyd dros gyfnodau estynedig
- ychydig iawn o blant sy'n defnyddio'r Gymraeg yn naturiol heb anogaeth ac sy'n ateb cwestiynau mewn brawddegau llawn ac
- nid yw'r lleoliad yn monitro effaith y ddarpariaeth yn ddigon manwl i sicrhau gwelliannau yn safonau llythrennedd a rhifedd y plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- ymarferwyr yn cynllunio ystod briodol o weithgareddau diddorol sydd â phwyslais cadarn ar ddysgu drwy brofiadau uniongyrchol
- ganddi systemau priodol ar gyfer adnabod ei chryfderau
- ganddi ystod dda o bartneriaethau sy'n sicrhau profiadau symbylol i'r plant sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad

Fodd bynnag:

- nid yw'r cynllunio bob amser yn sicrhau cyfleoedd digon cadarn a chyson i alluogi'r plant i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gyflym ar draws y meysydd dysgu

- nid yw'r cynllunio yn sicrhau bod y plant mwy galluog yn cael eu herio'n ddigon da
- nid yw'r ardal tu allan yn cael ei defnyddio'n ddigon effeithiol ac
- nid yw'r lleoliad wedi adnabod meysydd pwysig sydd angen eu gwella

## Argymhellion

- A1 Cynllunio gweithgareddau rheolaidd er mwyn datblygu medrau llafar Cymraeg y plant yn gydlynol ar draws y meysydd dysgu
- A2 Cynllunio gweithgareddau sy'n gwneud defnydd effeithiol o'r ardal awyr agored drwy gydol y flwyddyn fel bod plant yn symud yn annibynnol rhwng yr ardaloedd dysgu
- A3 Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cynnig her briodol a chyson i blant o bob gallu
- A4 Datblygu strategaethau effeithiol i reoli ymddygiad lleiafrif y plant
- A5 Sicrhau bod y broses hunanarfarnu yn adnabod y meysydd pwysig sydd angen eu gwella

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Cylch Meithrin Cei Newydd yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Digonol

#### Safonau: Digonol

Mae mwyafrif y plant yn gwneud cynnydd priodol o'u manau cychwyn yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn dangos lefelau cadarn o wybodaeth ar draws y meysydd dysgu ac yn datblygu medrau sy'n unol â'r hyn a ddisgwylir o ystyried eu hoed a'u gallu. Mae'r mwyafrif yn adalw dysgu blaenorol yn llwyddiannus ac maent yn gwneud cynnydd cadarnhaol wrth ddatblygu eu medrau meddwl a datrys problemau. Wrth iddynt ddewis eu tasgau eu hunain ar gychwyn y dydd, mae llawer yn arbrofi ac yn ymchwilio'n hyderus ac yn gwneud cynnydd priodol tuag at fod yn ddysgwyr annibynnol. Fodd bynnag, ychydig o blant sy'n dyfalbarhau'n ddiwyd dros gyfnodau estynedig.

Mae mwyafrif y plant yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llythrennedd. Maent yn datblygu medrau cyfathrebu cadarn ac yn gwneud eu hunain yn ddealladwy yn Saesneg wrth fynegi hoffter a'r hyn y maent am ei wneud. Mae'r mwyafrif yn dangos dealltwriaeth briodol o orchmynion cyfarwydd yn y Gymraeg. Mae llawer yn ymuno â chaneuon a rhigymau yn y Gymraeg gyda brwdfrydedd ac arddeliad, gan fod yr arfer o ganu yn rhan annatod o fywyd dyddiol y lleoliad. Serch hyn, ychydig sy'n ymateb yn ddigon hyderus i gyfarwyddiadau newydd yn y Gymraeg ac mae llawer yn aros am gyfarwyddiadau yn Saesneg cyn ymateb. Ychydig iawn sy'n defnyddio'r Gymraeg yn naturiol heb anogaeth ac sy'n ateb cwestiynau mewn brawddegau llawn.

Mae mwyafrif y plant yn gwranddo'n briodol ar ei gilydd wrth chwarae, er enghraifft wrth brynu a gwerthu yn y siop, wrth baratoi bwyd yn y gegin ac wrth drafod storïau a'r tywydd. Fodd bynnag, mae'r lleiafrif yn aflonydd ac yn ymddwyn yn or-frwdfrydig yn ystod tasgau. Maent yn cael anhawster eistedd yn dawel wrth wrando ar storïau ac i ddyfalbarhau yn ystod tasgau ffocws. O ganlyniad, mae medrau llythrennedd y plant hyn yn wan.

Mae tua hanner y plant yn adnabod eu henwau wrth gofrestru ac yn derbyn cyfrifoldebau fel gweini amser byrbryd. Mae ychydig yn cychwyn ysgrifennu eu henw, yn adnabod seiniau llythrennau cyntaf geiriau ac yn awgrymu geiriau eraill sy'n dechrau gyda'r un sain. Mae'r lleiafrif yn gwneud marciau addas ac yn dangos rheolaeth gynyddol dros amrywiaeth o offer a ddefnyddir ar gyfer ysgrifennu. Maent yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol drwy farcio, peintio a gludo. Mae ychydig yn troi at lyfrau o'u gwirfodd ac yn mwynhau rhannu stori gydag oedolyn. Maent yn gwybod y ffordd gywir i ddal llyfr, yn siarad am y lluniau ac yn gallu dweud beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori gyfarwydd.

Mae'r mwyafrif yn datblygu medrau rhifedd da. Gallant gyfrif i ddeg yn hyderus ac mae ychydig yn cyfrif i 20 a thu hwnt heb anogaeth. Er enghraifft, maent yn cyfrif faint o blant sy'n bresennol ac yn cymharu niferoedd o'r diwrnod blaenorol gan nodi os yw'r cyfanswm yn fwy neu'n llai. Mae'r mwyafrif yn trin arian yn y siop yn hyderus ac yn datblygu ymwybyddiaeth dda o werthoedd gwahanol. Er enghraifft, maent yn dechrau deall bod modd prynu llawer mwy o bethau o'r siop gydag arian papur na darnau arian.

Mae mwyafrif y plant yn darlunio siapiau dau ddimensiwn fel sgwâr, cylch a thriogl yn gywir ac yn adnabod y siapiau hyn mewn gwrthrychau o amgylch y lleoliad. Mae ychydig yn adnabod siapiau tri dimensiwn ac yn gwybod y gwahaniaeth rhwng ciwb a chiwboid wrth eu defnyddio i adeiladu. Mae'r mwyafrif yn defnyddio ystod addas o iaith fathemategol wrth chwarae. Maent yn defnyddio ansoddeiriau fel 'bach' a 'mawr' yn gywir wrth adeiladu blociau ac yn grwpio dail yr Hydref yn ôl lliw, maint a siâp. Fodd bynnag, nid yw ychydig yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i gaffael eu medrau rhifedd ar draws y meysydd dysgu.

Mae llawer o'r plant yn hyderus wrth ddefnyddio ystod o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Er enghraifft, maent yn defnyddio dyfeisiau a ddeler â llaw yn fedrus i dynnu lluniau ohonynt eu hunain a'u ffrindiau ac yn gwneud dewisiadau synhwyrol wrth drin rhaglenni addas ar lechen. Mae'r lleiafrif yn rheoli teganau electronig yn gywir ac mae ychydig yn deall sut i raglennu cerbyd er mwyn gwneud iddo deithio i fan penodol.

Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau corfforol da ac yn datblygu'n unigolion egnïol. Maent yn gwneud defnydd da o'r offer sydd ar gael iddynt y tu allan yn ystod amser chwarae er mwyn datblygu medrau fel cydbwysu, taflu, dal a chicio pêl yn ogystal â dringo a marchogaeth beic yn briodol.

### **Lles: Digonol**

Mae bron pob plentyn yn mwynhau dod i'r lleoliad ac maent yn frwdfrydig iawn i gymryd rhan yn y gweithgareddau a osodir ar eu cyfer. Maent yn hapus i weld eu ffrindiau ac yn awyddus i chwarae gyda nhw o'r cychwyn cyntaf. Mae'r mwyafrif yn deall bod angen rhannu teganau ac adnoddau ac maent yn aros eu tro yn amyneddgar pan fydd yr ymarferwyr yn eu hatgoffa i wneud hynny. Mae gan y mwyafrif agwedd dda tuag at ddysgu. Fodd bynnag, mae lefel ymrwymiad lleiafrif y plant yn isel iawn ac maent yn colli diddordeb yn fuan. Mae hyn yn digwydd gan amlaf pan nad yw'r gweithgareddau yn cyfateb yn ddigon da i'w gallu neu eu bod yn parhau am gyfnodau sy'n rhy hir.

Mae gan lawer ddealltwriaeth gadarn o'r angen i gadw'n iach. Mae bron pob un yn golchi eu dwylo'n annibynnol ar ôl ymweld â'r tŷ bach a chyn bwyta'u ffrwythau. Maent yn deall bod bwyta bwydydd a diodydd iach yn bwysig. Mae llawer yn cyfrannu'n synhwyrol at greu mapiau meddwl sy'n cynorthwyo'r ymarferwyr i gynllunio gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae cynnwys y themâu cyfredol yn enghraifft dda o hyn.

Mae mwyafrif y plant yn ymddwyn yn gwrtais. Maent yn cydweithio'n dda, yn canolbwyntio'n llwyddiannus ac yn dyfalbarhau am gyfnodau priodol. Fodd bynnag, mae lleiafrif yn afreolus wrth weithio ag eraill. Maent yn aml yn torri ar draws ei gilydd, yn mynnu sylw ac yn anwybyddu cyfarwyddiadau'r oedolion. Mae rhan fwyaf yn ymgymryd â chyfrifoldebau trwy hunangofrestru ar gychwyn y dydd neu ddsbarthu bwyd a diod i'w ffrindiau. Wrth iddynt aeddfedu, mae lleiafrif yn gwneud penderfyniadau mwy gwybodus am eu dysgu. Mae llawer yn cymryd gofal o'r adnoddau ac yn tacluso ar ddiwedd gweithgaredd.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Digonol</b>
----------------

### **Profiadau dysgu: Digonol**

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod briodol o weithgareddau diddorol er mwyn darparu cwricwlwm sydd â phwyslais cadarn ar ddysgu drwy brofiadau uniongyrchol. Mae'r gweithgareddau hyn yn galluogi mwyafrif y plant i wneud cynnydd addas ar draws y rhan fwyaf o feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio bob amser yn sicrhau cyfleoedd digon cadarn a chyson i alluogi'r plant i ddatblygu eu medrau llythrennedd yn gydlynol ar draws y meysydd dysgu. Nid yw'r cynllunio ychwaith yn sicrhau bod ymarferwyr yn herio'r plant mwy galluog yn ddigon da ac, o ganlyniad, nid yw'r cynllunio'n cael digon o effaith ar godi safonau llafar Cymraeg y plant.

Yn ddiweddar, mae ymarferwyr yn cynllunio'n fwy systematig ar gyfer datblygu medrau rhifedd llawer o'r plant. Yn dilyn hyfforddiant buddiol, mae'r gweithgareddau hyn yn adeiladu'n llwyddiannus ar gyraeddiad blaenorol mwyafrif y plant. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh y plant yn dda.

Pan fo tywydd yn caniatáu, mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n briodol ar gyfer gwneud defnydd effeithiol o'r ardal y tu allan er mwyn datblygu medrau ymchwilio'r plant. Maent yn derbyn profiadau buddiol wrth arsylwi ar y bywyd gwyllt, er enghraifft wrth dyfu llysiau a ffrwythau, astudio'r adar ac wrth ddarganfod trychfilod. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd priodol i alluogi'r plant i feddwl drostynt eu hunain yn yr ardaloedd y tu allan, i ddatrys problemau ac i ddod yn ddysgwyr mwy annibynnol. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau ar gyfer yr ardal allanol yn ystyried cyfleoedd rheolaidd er mwyn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Yn gyffredinol, nid yw'r cynllunio yn atgyfnerthu'r gwaith sy'n digwydd y tu mewn i'r lleoliad. Gan nad oes gan y plant fynediad parhaus i'r ardal hwn, mae hyn yn cyfyngu ar y dewis sydd ar gael iddynt.

Mae rhan fwyaf y plant yn cael cyfleoedd da i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru wrth dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mae ymarferwyr yn defnyddio ystod o ganeuon a rhigymau Cymraeg yn dda i helpu plant i ddysgu ac atgyfnerthu patrymau iaith. Mae'r holl ymarferwyr yn ymdrechu'n dda i gyfathrebu'n briodol â'r plant yn y Gymraeg trwy fwydo geirfa ac ymadroddion newydd yn rheolaidd.

Darperir cyfleoedd boddhaol i'r plant ddysgu gwybodaeth a dealltwriaeth am ddiwyllianau a thraddodiadau eraill fel Diwali. Mae hyn yn cyfrannu'n briodol at eu datblygu'n ddinasyddion byd-eang. Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau symbylol o fewn y gymuned ac mae ymweliadau â lan y môr a pharc natur cyfagos yn cyfoethogi profiadau dysgu plant yn llwyddiannus.

### **Addysgu: Digonol**

Mae perthynas waith gadarnhaol a chefnogol yn bodoli rhwng yr holl ymarferwyr a'r plant, sy'n eu galluogi i deimlo'n ddiogel ac ymgartrefu'n gyflym wrth iddynt gyrraedd y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo dysgu trwy chwarae yn llwyddiannus. Mae ganddynt wybodaeth ymarferol briodol am ddatblygiad plant a dealltwriaeth gadarn o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd



ac yn cymryd rôl weithredol wrth gynllunio'r gweithgareddau, a gwneir defnydd addas o'u harbenigedd. Fodd bynnag, nid ydynt yn gosod amcanion dysgu digon clir ar ddechrau pob gweithgaredd ac nid ydynt bob tro'n herio plant unigol yn briodol. O ganlyniad, mae lleiafrif y plant yn colli diddordeb yn y dasg ac mae eu hymddygiad yn heriol.

Mae ymarferwyr yn rhoi dewis i ran fwyaf y plant ddewis rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion neu i weithio'n annibynnol. Gan amlaf, mae ymarferwyr yn rhyngweithio'n bwrpasol gyda'r plant ac yn eu holi'n effeithiol i ymestyn eu dysgu a'u medrau meddwl. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r staff yn ymyrryd yn ormodol, ac nid ydynt yn caniatáu i'r plant ddatblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus.

Mae'r staff yn darparu amgylchedd diddorol yn y prif adeilad. Fodd bynnag, nid yw'r addysgu yn yr awyr agored yn ddigon ysgogol.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau asesu cadarn. Mae'r cofnodion ar gyflawniad y plant yn cael eu cwblhau'n llwyddiannus ac mae gan yr ymarferwyr ymwybyddiaeth dda o'u cyrhaeddiad. Mae'r asesiadau'n cychwyn arwain at adnabod targedau unigol a'r camau nesaf yn natblygiad y plant. Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu'n dda am gyflawniad eu plant ac mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw amser.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod gofal dyddiol ac iechyd y plant yn dda. Mae gan y lleoliad ddarpariaeth gadarn ar gyfer sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y plant. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol y plant mor gadarn, sy'n cyfrannu at ymddygiad afreolus ymysg y lleiafrif.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod bron pob un o'r plant yn cael cyfleoedd da i ddweud diolch. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt gymryd eu tro wrth fwyta ffrwythau ac yfed diod amser byrbryd ac wrth chwarae rôl yn y caffi. Mae gan y lleoliad drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta, yfed a byw'n iach. Mae ymwelwyr ac ymweliadau yn cyfoethogi hyn ac yn ymestyn dealltwriaeth y plant ymhellach. Mae cyfleoedd da ar gael i'r plant ailgylchu papur, plastig a bwyd. Mae'r lleoliad yn annog y plant i blannu llysiau a blodau mewn potiau a sachau yn yr ardal allanol. Mae hyn yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth am gynaliadwyedd yn briodol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol. Fodd bynnag, nid ydynt yn dileu aflonyddwch nac ymddygiad annerbyniol gan leiafrif y plant yn ddigon effeithiol. Maent yn ofalus iawn wrth oruchwylio'r plant wrth iddynt fynd i chwarae ar y cyrtiau tennis cyfagos.

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer derbyn y plant yn y bore ac wrth sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu ofalwr cyfarwydd wrth adael. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn achos pryder.

Mae'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol yn brofiadol ac yn wybodus iawn am anghenion addysgol y plant sy'n derbyn cefnogaeth. Mae hi'n trefnu cynlluniau unigol buddiol iawn iddynt, sy'n cael effaith arbennig o effeithiol ar eu datblygiad. Mae'n cydlynu cyfarfodydd adolygu rhwng y rhieni, y lleoliad ac unrhyw asiantaethau allanol sy'n darparu cefnogaeth arbenigol yn effeithiol. Mae hyn y sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cydweithio'n dda er mwyn codi safonau a lles plant. Mae'r trefniadau ar gyfer cefnogi'r plant sydd angen cefnogaeth ar gyfer datblygu eu llafaredd yn effeithiol.

### **Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad, drwy'r gweithgareddau dyddiol ac agwedd gadarnhaol yr ymarferwyr, yn hyrwyddo ethos addas. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm priodol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau'n llwyddiannus yn yr adeilad i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant, sy'n hyrwyddo'u synnwyr o gyfrifoldeb yn briodol. Mae'r adnoddau wedi eu rhannu'n effeithiol rhwng y gweithgareddau parhaus a chyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu. Mae arddangosfeydd o waith y plant yn dathlu eu cyflawniadau yn dda.

Cedwir yr adeilad a safle'r lleoliad yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, nid yw'r ardal y tu allan yn cael ei defnyddio'n ddigon effeithiol. Mae cyfleoedd priodol ar gael i'r plant dyfu planhigion mewn potiau a sachau. Mae hwn yn ymestyn yn ddigonol eu dealltwriaeth o sut mae planhigion yn datblygu. Mae'r lleoliad wedi buddsoddi'n sylweddol mewn adnoddau TGCh sy'n cael eu defnyddio'n llwyddiannus er mwyn datblygu medrau'r plant.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>
--

<b>Digonol</b>
----------------

### **Arweinyddiaeth: Digonol**

Caiff y lleoliad ei reoli'n dda o ddydd i ddydd. Mae'r arweinydd yn gweithio'n agos gyda gweddill y staff i greu ethos croesawgar ac mae bron pob plentyn yn ymateb yn gadarnhaol i hyn wrth gyrraedd ar ddechrau'r sesiwn. Mae ymroddiad cadarnhaol i waith tîm yn amlwg ac mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae gan yr arweinydd weledigaeth gadarn ar gyfer datblygu'r lleoliad, sy'n seiliedig ar ofal cariadus tuag at bob plentyn fel eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae amcanion y lleoliad i ddarparu profiadau gwerthfawr i'r plant er mwyn eu datblygu'n ddysgwyr annibynnol, yn cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda'r holl randdeiliaid. Mae'r weledigaeth hon yn cychwyn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth

Mae'r arweinydd wedi datblygu trefniadau addas er mwyn gwerthuso perfformiad yr ymarferwyr. Fodd bynnag, nid yw'r adborth iddynt yn dilyn arsylwadau wedi cael ei ffurfioli eto, ac nid yw'n ystyried effaith yr addysgu ar ddeilliannau'r plant yn ddigon cadarn. Mae'r hyfforddiant a ddarperir ar gyfer yr ymarferwyr, fodd bynnag, yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol yn briodol ac mae'n berthnasol i anghenion y lleoliad a'r ymarferwyr. Mae hyn yn cychwyn symud y lleoliad ymlaen yn strategol. Enghraifft dda o hyn yw'r gwelliannau yn y ddarpariaeth er mwyn datblygu medrau rhifedd a chorfforol y plant.

Mae gan yr ymarferwyr gyfrifoldebau penodol i arwain agweddau o'r cwricwlwm er mwyn datblygu'r lleoliad fel cymuned ddysgu effeithiol. Mae'r arweinydd yn rhannu arferion addysgu newydd yn briodol gyda gweddill y staff i wella'u harferion proffesiynol ac er mwyn codi safonau'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn cyfrannu'n weithredol tuag at lwyddiant y lleoliad drwy rannu cyfarwyddiadau clir â'i gilydd. Maent yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn cynllunio a gwerthuso ansawdd yr addysgu yn ogystal â chyrhaeddiad y plant. Fodd bynnag, nid ydynt yn ymateb yn ddigon cyflym i unrhyw agweddau pwysig sydd angen eu gwella.

Mae'r pwyllgor rheoli, o dan arweiniad cadeirydd gwybodus, yn chwarae rôl werthfawr ym mywyd y lleoliad. Mae'r pwyllgor yn rhoi ystyriaeth dda i ddeddfwriaeth, yn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion cyfreithiol ac ariannol yn effeithlon. Mae ychydig o aelodau'r pwyllgor yn ymweld â'r lleoliad yn aml ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'i gryfderau. Fodd bynnag, nid ydynt yn monitro effaith y ddarpariaeth yn ddigon manwl i sicrhau gwelliannau mewn safonau llythrennedd a rhifedd y plant.

### **Gwella ansawdd: Digionol**

Mae gan y lleoliad drefniadau priodol ar gyfer adnabod ei gryfderau ac ychydig o feysydd sydd angen eu gwella. Mae cyfarfodydd wythnosol staff yn caniatáu i'r lleoliad fynd i'r afael â materion o ddydd i ddydd yn effeithiol yn ogystal â rhai agweddau o'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw trefniadau hunanarfarnu'r lleoliad wedi adnabod yr holl feysydd pwysig sydd angen eu gwella.

Mae prosesau hunanarfarnu yn cynnwys arsylwadau uniongyrchol, craffu ar gynlluniau gwaith, asesiadau o gyrhaeddiad y plant yn ogystal â barn yr holl ymarferwyr, rhieni a gofalwyr y plant. Mae'r trefniadau hyn yn canolbwyntio'n gryf ar les y plant a'r ddarpariaeth ar eu cyfer, ond nid yw bob amser yn ystyried y safonau y mae plant yn eu cyflawni yn ddigon da. Er enghraifft, nid yw'r lleoliad yn barnu i ba raddau mae gweithgareddau yn cynnig digon o her ar gyfer plant mwy galluog.

Mae'r cynllun datblygu, sy'n deillio o'r hunanarfarnu diweddar, wedi'i strwythuro'n dda. Mae'n cynnwys ffocws priodol ar derfynau amser clir, costau, a chamau gweithredu defnyddiol. Mae'r arweinydd yn monitro cynnydd ac yn gwerthuso effaith y gwelliannau'n briodol. Fodd bynnag, gan nad yw'r lleoliad wedi adnabod meysydd pwysig sydd angen eu gwella, nid yw'r cynllunio ar gyfer gwelliant yn arwain at wella'r deilliannau na safonau lles y plant yn ddigon effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn cael eu cynnwys mewn ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu da. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio gyda'r awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin er mwyn gwella trefniadau hunanarfarnu. Mae'r lleoliad wedi bod yn araf yn ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf sy'n cyfeirio at ddatblygu medrau llafar Cymraeg y plant, sicrhau gwell her ar gyfer y plant hŷn a datblygu trefniadau hunanarfarnu ymhellach.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod dda o bartneriaethau sy'n sicrhau profiadau symbylol i'r plant ac sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad. Mae perthynas y lleoliad â rhieni yn gadarnhaol iawn. Mae'r cyfleoedd anffurfiol a chyfeillgar dyddiol yn hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth am ddatblygiad eu plant ac mae ymarferwyr yn gweithio'n llwyddiannus i annog rhieni i gymryd rhan weithredol yn eu haddysg. Mae'r holl rieni yn gwerthfawrogi safonau uchel y gofal a ddarperir gan yr ymarferwyr.

Mae rhieni yn derbyn adroddiadau cynhwysfawr am eu plant ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r rhain yn rhoi sylw da i gynnydd a chyflawniad ac mae pob adroddiad yn cael ei ysgrifennu mewn dull sensitif a phersonol iawn. Mae gan y lleoliad gysylltiadau buddiol â'r ysgol gynradd ac mae ymweliadau'r plant yno, cyn cychwyn, yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae gan y lleoliad ystod eang o gysylltiadau cryf â'r gymuned leol. Mae aelodau o'r gymuned yn ymweld â'r lleoliad yn aml. Er enghraifft, roedd ymweliad oen a'i berchennog i'r lleoliad wedi cyfoethogi profiadau uniongyrchol y plant yn effeithiol wrth ddysgu am anifeiliaid. Mae'r ymweliadau hefyd yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu dealltwriaeth y plant o'r bobl sy'n eu helpu yn y gymuned. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd priodol o'r parc lleol yn ogystal ag ardaloedd agored y clwb pêl-droed. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad corfforol y rhan fwyaf o'r plant.

Mae'r lleoliad yn cynnig profiad gwaith buddiol i ddisgyblion o'r ysgol uwchradd leol yn ogystal â chynnig lleoliadau i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau datblygiad plentyndod cynnar. Mae'r lleoliad yn derbyn cefnogaeth addas gan yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae'r cyngor a'r arweiniad wedi bod yn gymorth i ddechrau symud y lleoliad ymlaen yn strategol. Mae'r ymarferwyr yn dechrau defnyddio awgrymiadau ymarferol yn bwrpasol er mwyn codi safonau a gwella'r ddarpariaeth.

### **Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r lleoliad yn rheoli'r staff, yr adnoddau a'r cyllid yn effeithiol. Mae gwybodaeth y staff yn datblygu drwy hyfforddiant priodol i gyflwyno cwricwlwm addas. Caiff arbenigedd y staff ei ddefnyddio'n dda ac maent yn gweithio'n effeithiol â'i gilydd yn frwdfrydig i geisio gwella cyflawniadau'r plant.

Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau y tu mewn i'r adeilad ac fe'u defnyddir yn effeithiol i hyrwyddo amcanion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn briodol. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant sy'n annog annibyniaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu. Nid yw'r lleoliad yn defnyddio'r ardal allanol yn ddigon effeithiol, fodd bynnag.

Mae'r lleoliad yn darparu profiadau priodol sydd wedi eu cynllunio'n foddhaol. Yn ddiweddar, mae cefnogaeth asiantaethau allanol wedi sicrhau gwell cysondeb, safonau priodol a gwell darpariaeth.

O ystyried y safonau a'r addysgu digonol, yn ogystal â diffyg y lleoliad i adnabod meysydd pwysig sydd angen eu gwella, mae'r lleoliad yn rhoi gwerth digonol am arian ar hyn o bryd.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

#### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the setting.	14	10 71%	4 29%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol.
		80%	20%	0%	0%		
My child likes this setting.	14	12 86%	2 14%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn.
		84%	15%	0%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the setting.	14	13 93%	1 7%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad.
		86%	13%	0%	0%		
My child is making good progress at the setting.	13	11 85%	2 15%	0 0%	0 0%	1	Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad.
		81%	19%	0%	0%		
Children behave well in the setting.	13	8 62%	5 38%	0 0%	0 0%	1	Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad.
		72%	27%	0%	0%		
Teaching is good.	14	11 79%	3 21%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		81%	19%	0%	0%		
Staff treat all children fairly and with respect.	14	13 93%	1 7%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		84%	16%	0%	0%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	14	12 86%	2 14%	0 0%	0 0%	0	Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		76%	23%	0%	0%		
My child is safe at the setting.	14	12 86%	2 14%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad.
		85%	15%	0%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs.	13	10 77%	3 23%	0 0%	0 0%	1	Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		72%	27%	1%	0%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	14	7 50%	6 43%	1 7%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		63%	30%	5%	1%		
I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem.	14	12 86%	2 14%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		80%	18%	1%	0%		
I understand the setting's procedure for dealing with complaints.	13	9 69%	4 31%	0 0%	0 0%	1	Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion.
		65%	31%	3%	1%		
My child is well prepared for moving on to school.	9	7 78%	2 22%	0 0%	0 0%	5	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol.
		74%	25%	1%	0%		
There is a good range of activities including trips or visits.	13	4 31%	9 69%	0 0%	0 0%	1	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		63%	32%	4%	1%		
The setting is well run.	14	12 86%	2 14%	0 0%	0 0%	0	Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda.
		82%	17%	1%	0%		

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

Dyfrig Ellis	Arolygydd Cofnodol
--------------	--------------------

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

## Rhestr termau

<b>AGGCC</b>	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
<b>Athro ymgynghorol awdurdod lleol</b>	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
<b>Y Cyfnod Sylfaen</b>	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
<b>Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)</b>	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
<b>Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)</b>	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
<b>Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)</b>	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
<b>Meysydd Dysgu</b>	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</li> <li>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu</li> <li>• datblygiad mathemategol</li> <li>• datblygu'r Gymraeg</li> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd</li> <li>• datblygiad corfforol</li> <li>• datblygiad creadigol</li> </ul>
<b>Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)</b>	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.



<b>Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)</b>	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
<b>Mudiad Meithrin</b>	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.